**<u>Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD-01-03(min)</u>**

**Cofnodion**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 15 Ionawr
**Amser:** 9.15am tan 12.15pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| David Davies | Mynwy |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Yn bresennol* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Gwyn Griffiths | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Simon Hewitt | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Gareth Jones | Is-adran Rheoli'r PAC |
| Gwyn Jones | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Huw Jones | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Joy Whinney | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Gareth Evans | Cadeirydd, Grwp Strategaeth Sector Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-amaeth yng Nghymru |
| Arwyn Davies | Y Gyfarwyddiaeth Fwyd, Awdurdod Datblygu Cymru |
| Dewi Williams | Y Gyfarwyddiaeth Fwyd, Awdurdod Datblygu Cymru |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman, Glyn Davies a Peter Rogers. Dirprwyodd Karen Sinclair ar ran Christine Chapman a David Davies ar ran Peter Rogers. Cafodd Ron Davies ei ethol yn gadeirydd dros dro yn absenoldeb Glyn Davies o'r Cynulliad.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 01-03(p1)**

2.1 Yn ychwanegol at y wybodaeth yn ei adroddiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod Hyrwyddo Cig Oen a Chig Eidion Cymru, yn amodol ar gadarnhad yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, wedi cytuno i ymuno â Hybu Cig Cymru.

***Taliadau cymhorthdal CAP***

2.2 Dywedodd y Gweinidog fod llinell gymorth wedi'i lansio ar 14 Ionawr er mwyn helpu ffermwyr gydag ymholiadau'n ymwneud â thaliadau cymhorthdal CAP. Byddai'r llinell gymorth yn galluogi personél y Swyddfa Ranbarthol i ganolbwyntio ar brosesu taliadau. Er bod hynny wedi digwydd yn hwyrach nag a fwriadwyd yn wreiddiol, roedd y taliadau cymhorthdal wedi'u gwneud o fewn y cyfnod talu a ganiateir gan yr UE. Ni fyddai ad-daliad ar gyfer llog ychwanegol yn cael ei ystyried ar gyfer taliadau a wnaed o fewn y cyfnod hwn.

2.3 Mewn ymateb i gwestiwn am daliadau llog, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod ystyriaeth wedi'i rhoi i bob achos ar wahân yn y blynyddoedd a fu i ddigolledu cynhyrchwyr pan oedd taliadau wedi'u gwneud ar ôl diwedd y cyfnod taliad o ganlyniad i amgylchiadau oedd y tu hwnt i reolaeth y cynhyrchydd, megis diffygion gweinyddol.

2.4 Cytunodd y Gweinidog i roi nodyn i David Davies am y canran o daliadau SAP a wnaed hyd yn hyn, yn ôl eu gwerth.

***Polisi Ailblannu ar Goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol***

2.5 Croesawodd yr Aelodau gyflwyno targedau clir ar gyfer ailblannu yng nghoetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cynyddu'r cyfraddau o goed collddail. Ond mynegwyd pryder yr ymddengys mai ychydig o gynnydd a wnaed o ran ystyriaethau economaidd hyd yn hyn. Nododd y Pwyllgor fod newidiadau i'r polisi plannu wedi'u cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diweddar er y byddai'n cymryd nifer o flynyddoedd eto i'r newidiadau ddod yn amlwg. Byddai manteision ehangu'r egwyddor o gael gorchuddiad coed parhaus, er enghraifft, yn dod i'r amlwg dros yr ugain mlynedd nesaf a thu hwnt.

***Proses Apeliadau Annibynnol***

2.6 Rhoddwyd manylion am nifer a chanlyniad yr apeliadau ymhob cam o'r broses. Nodwyd mai cyfrifoldeb ffermwyr unigol oedd sicrhau bod cardiau symud yn cael eu dosbarthu'n ddiogel i Swyddfeydd Rhanbarthol. Dywedodd Gareth Jones, Pennaeth Is-adran Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, y byddai'n barod i ystyried achosion unigol yn ymwneud â chardiau symud sydd wedi mynd ar goll, os oeddent yn cael eu dwyn i'w sylw.

***Hela â Chwn***

2.7 Mynegodd yr Aelodau eu siom nad oedd y Gweinidog wedi rhyddhau'r cyngor cyfreithiol a roddwyd iddo ynghylch ei bwerau i wahardd hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Dywedodd y Gweinidog ei fod, o ystyried y perygl o her cyfreithiol a'r adnoddau oedd ar gael iddo, yn dymuno canolbwyntio ar bwyso am ddatganoli darpariaethau rheoleiddiol o fewn y Mesur Hela cyfredol, yn hytrach na chymryd camau ar unwaith o ran hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth.

2.8 Dywedodd Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad fod gan y Cynulliad y pwer sylfaenol i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth. Byddai'r dull o wneud hyn yn effeithio ar debygolrwydd llwyddiant unrhyw her cyfreithiol.

***Lladd-dy Rhaglan***

2.9 Dywedodd Joy Whinney, o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, eu bod wedi cysylltu â Lladd-dy Rhaglan, ynghyd â'r holl weithredwyr sy'n derbyn nifer isel o anifeiliaid yng Nghymru, ym mis Ebrill 2001, i'w hatgoffa o'r ymrwymiad i gadw at y niferoedd isel. Gwnaed yr erlyniad yn erbyn y lladd-dy mewn perthynas â thor-cyfraith cyn yr achosion o glwy'r traed a'r genau, yn ystod yr achosion ac wedi hynny.

2.10. Cytunai'r Aelodau nad y Pwyllgor oedd y lle priodol i drafod achosion penodol, ac mai Aelodau'r etholaethau unigol ddylai wneud hynny.

***Cnydau a Addaswyd yn Enetig***

2.11 Dywedodd y Gweinidog nad oedd ef, na'i swyddogion, wedi bod yn ymwybodol o fwriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i gyhoeddi adroddiad ar fonitro astudiaethau o ryddhau Rêp Had Oel mewn caeau yn Lloegr rhwng 1994 a 2000. Mynegodd yr Aelodau eu siom yn y diffyg cyfathrebu rhwng y Gweinidog a DEFRA ynghylch y mater hwn. Ers hynny roedd y Gweinidog wedi cysylltu â Michael Meacher, y Gweinidog Gwladol dros yr Amgylchedd, i godi'r mater hwn.

***Cynllun Diadellau'r Ysfa***

2.12 Awgrymwyd y byddai Cynllun Diadellau'r Ysfa o dan Gynllun Cenedlaethol yr Ysfa, a oedd i'w gyflwyno'n wirfoddol, yn fwy effeithiol o ran dileu'r clefyd pe bai'n cael ei wneud yn orfodol. Nododd y Pwyllgor nad oedd sail statudol ar hyn o bryd dros gynllun o'r fath. Ond roedd cynigion drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer genoteipio a magu er mwyn cael ymwrthedd i'r ysfa mewn diadellau yr effeithiwyd arnynt yn rhagweld gweithdrefn orfodol.

***Materion Eraill***
2.13 Gofynnodd y Cadeirydd am gael cynnwys y materion eraill yr oedd Peter Rogers wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw ohonynt - sef stoc sydd wedi marw a Chyswllt Ffermio - yn adroddiad nesaf y Gweinidog.

**Pwyntiau Gweithredu**
Y Gweinidog i roi nodyn i David Davies ar ganran y taliadau SAP a wnaed, yn ôl eu gwerth - **y Gweinidog, Is-adran Rheoli'r PAC**
Stoc sydd wedi marw a Chyswllt Ffermio i'w cynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog - **Gweinidog, yr Is-adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig**

**Eitem 3: Ymchwiliad y Pwyllgor i gynlluniau amaeth-amgylcheddol**
3.1 Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am y papur fel cefndir i ymholiad y Pwyllgor.

3.3 Yn ystod y trafodaethau nododd y Pwyllgor y canlynol:

- bod angen ariannu cynlluniau amaeth-amgylcheddol o dan y Rheoliad Datblygu Gwledig (RDR);
- bod cyfanswm yr arian sydd ar gael o dan y Rheoliad hwn yn gyfyngedig ac yn adlewyrchu gwariant hanesyddol isel ar ddatblygu gwledig yn y DU;
- cyfraddau penodol o gyd-ariannu wedi'u cymhwyso i gynlluniau amaeth-amgylcheddol o dan yr RDR. Ond nid oedd digon o gyllid i ariannu'r rhain ar y lefel a ddymunwyd heb gael cyllid ychwanegol yn uniongyrchol gan y Cynulliad;

- nid oedd rhoi arian yn ôl i'r Trysorlys yn golygu colled ariannol yn gyffredinol o ran y cynlluniau yng Nghymru gan fod yr hyn a dderbynnir gan yr UE yn cael ei ystyried wrth sefydlu cyllidebau rhaglenni a'r Bloc grant ar gyfer Cymru. Roedd y rhain felly wedi'u pennu ar lefelau a oedd yn uwch na fyddai'n digwydd fel arall.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r adroddiad bwysleisio'r angen:

- i geisio rhannu arian piler 2 yn decach er mwyn gwneud yn iawn am danariannu hanesyddol yr UE o ddatblygu gwledig yn y DU; ac
- i sicrhau nad oedd cytundeb Fontainbleu yn rhwystr i gael cyllid o Ewrop yr oedd gan Gymru yr hawl iddo.

**Eitem 4: Grwp Strategaeth Sector Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-amaeth: ARD 01-03(p3)**
4.1 Croesawodd y Cadeirydd Gareth Evans, Arwyn Davies a Dewi Williams ac esboniodd mai dyma'r diweddaraf o adroddiadau rheolaidd y Pwyllgor gan y grwpiau strategaeth Partneriaeth. Tynnodd Gareth Evans y pwyntiau allweddol o'r papur a gyflwynwyd (ARD 01-03(p3)).

4.2 Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- roedd newidiadau a wnaed yn ddiweddar i'r rheoliadau sy'n rheoli cwota llaeth yn golygu y byddai'n ofynnol i ffermwyr sy'n berchen ar gwota, ond ddim yn ei ddefnyddio, i werthu. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a 'r gweinyddiaethau eraill yn y DU yn ystyried y sgôp o brynu cwota a oedd yn cael ei ryddhau yn y modd hwn;
- roedd y Grwp ar y cyfan yn bositif ynghylch dyfodol y sector, er gwaethaf y pwysau economaidd ar bris llaeth amrwd. Roedd ei strategaeth yn canolbwyntio ar nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cynnyrch gwerth ychwanegol. Roedd potensial marchnata arbennig yn bodoli yn y sector caws arbenigol;
- roedd y cwmnïau prosesu llaeth sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu digon ar gyfer y llaeth a gynhyrchir yng Ngorllewin Cymru ond roedd sgôp o hyd i eraill fanteisio ar gyfleoedd yn y farchnad ehangach;
- roedd dulliau gwahanol archfarchnadoedd o weithredu'n amrywio'n fawr, gyda rhai ohonynt yn canolbwyntio'n unig ar brisiau ac eraill ar ddatblygu cysylltiadau hirdymor â chynhyrchwyr. Gallai logisteg cyflenwi siopau mawr roi pwysau sylwedol ar gynhyrchwyr bach;
- roedd tua 40 y cant o gynnyrch y sector yn dod o gwmnïau cydweithredol sy'n eiddo i ffermwyr o'u cymharu â thua 10 y cant ym 1999. Roedd y pwysau i sefydlu cwmni cydweithredol cenedlaethol wedi gostwng yn unol â hynny;
- roedd grantiau ar gael drwy Awdurdod Datblygu Cymru i helpu ffermwyr sy'n ceisio datblygu cynlluniau busnes penodol;
- roedd y sector llaeth wedi dangos y gallu i ymateb yn gyflym i arwyddion yn y farchnad ac roedd gan y Canolfannau Datblygu Llaeth rôl benodol i'w chwarae wrth roi gwybodaeth gywir am y farchnac i ffermwyr.

4.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu hadroddiad a llongyfarchodd y Grwp Strategaeth ar ei lwyddiant hyd yn hyn.

**Eitem 5: Comisiwn Richard: ARD 01-03(p4)**

5.1 Yn ei gyfarfod blaenorol, roedd y Pwyllgor wedi cytuno i ychwanegu ei bapur ei hunan i gyflwyniad y Cadeirydd i Gomisiwn Richard. Cynog Dafis, sef yr Aelod a fu'n ymwneud fwyaf â'r gwaith o baratoi'r papur, gyflwynodd y cyflwyniad drafft.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor:

- y dylid cyflwyno paragraffau 1 i 5 o'r adroddiad i'r Comisiwn;
- y dylid ychwanegu adran yn pwysleisio'r angen am well cyfathrebu rhwng DEFRA a'r Cynulliad Cenedlaethol; ac
- y dylid diwygio gweddill y papur, i adlewyrchu'r drafodaeth yn y cyfarfod, a'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.

**Eitem 6: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: ARD 11-02(cof)**
6.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 11 Rhagfyr.